Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# Adroddiad ar

# Uned Cyfeirio Disgyblion Ceredigion

Portland Place
Aberaeron
Ceredigion
SA46 0AX

Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2026

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant

yng Nghymru

## Ynglŷn ag Uned Cyfeirio Disgyblion Ceredigion

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Uned Cyfeirio Disgyblion Ceredigion |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Ceredigion |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Darpariaeth ar fwy nag un safle? | Oes |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 23 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 23 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 17/02/2020 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 19/01/2026 |

### Rhagor o wybodaeth

Mae Uned Cyfeirio Disgyblion (UCD) Ceredigion yn ffurfio rhan o ddarpariaeth Awdurdod Addysg Lleol Ceredigion ar gyfer disgyblion ag anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol. Mae gan bron bob un o'r disgyblion anghenion dysgu ychwanegol ac mae ganddynt gynllun datblygu unigol (CDU).

Mae'r UCD yn gweithredu ar draws dau safle ar hyn o bryd, sef Canolfan Aeron yn Aberaeron a Chanolfan yr Eos yn Aberystwyth. Mae cynlluniau ar waith i atgyfnerthu darpariaeth mewn un safle yn Felin-fach.

Darperir llywodraethu gan un pwyllgor rheoli, a gefnogir gan strwythur rheolaeth llinell integredig. Ar hyn o bryd, mae 23 disgybl yn derbyn addysg trwy'r UCD.

Nod trosfwaol yr UCD yw galluogi pob disgybl i ailintegreiddio mewn addysg brif ffrwd a/neu symud ymlaen i addysg bellach, hyfforddiant neu gyflogaeth. Mae pob un o'r disgyblion yn gallu cael addysg amser llawn, naill ai ar y safle yn yr UCD neu drwy drefniant cyfunol gydag ysgol brif ffrwd, darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol, coleg, darparwr hyfforddiant, neu gyflogwr.

Mae lleiafrif o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, ac ychydig iawn ohonynt yn blant sy'n derbyn gofal. Nid oes unrhyw ddisgyblion yn dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.

Mae'r pennaeth dros dro wedi bod yn ei swydd er mis Medi 2025.

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: [fyysgolleol.llyw.cymru](fyysgolleol.llyw.cymru)

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Crynodeb

Mae Uned Cyfeirio Disgyblion (UCD) Ceredigion yn darparu amgylchedd digynnwrf a chefnogol lle mae disgyblion yn teimlo'u bod yn cael eu hadnabod, eu gwerthfawrogi, ac y gwrandewir arnynt. Mae arweinwyr a staff yn rhoi lles disgyblion yn ganolog i'w gwaith, gan sefydlu perthnasoedd cryf ac ymddiriedus sy'n helpu disgyblion i ymgysylltu â dysgu a datblygu hyder. Mae'r rhan fwyaf o addysgu yn anogol a phwrpasol, ac mae staff yn gweithredu fel modelau rôl cadarnhaol ac yn rheoli ymddygiad a rheoleiddio emosiynol yn effeithiol. Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd addas o'u mannau cychwyn, yn datblygu medrau pwysig, ac yn ennill cymwysterau ystyrlon sy'n eu paratoi'n dda ar gyfer y cam nesaf yn eu bywydau.

Mae llawer o ddisgyblion yn cael cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd, medrau digidol, creadigrwydd, datrys problemau, annibyniaeth a medrau ymarferol trwy ystod eang o wersi, prosiectau a gweithgareddau oddi ar y safle. Maent yn elwa ar ddulliau cyffrous, gan gynnwys realiti rhithwir, gwaith coetir, sesiynau campfa, coginio, cyrsiau galwedigaethol a gweithgareddau cyfoethogi, sy'n gwneud dysgu'n ddifyr a pherthnasol. Mae disgyblion yn dysgu am berthnasoedd, iechyd rhywiol, diogelwch ar-lein a chydsynio, a gallant gymryd rhan mewn ystod o brofiadau trwy gynllun gwobrwyo'r ysgol a phartneriaethau allanol.

Mae'r UCD yn cynorthwyo disgyblion i baratoi ar gyfer eu camau nesaf trwy gysylltiadau cryf â cholegau lleol, Gyrfa Cymru a darparwyr addysg eraill. Mae ychydig o ddisgyblion yn cwblhau lleoliadau profiad gwaith, lle bo'n briodol.

Mae staff yn yr UCD yn darparu cymorth unigol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol gan ddefnyddio strategaethau fel amserlenni gweledol, dietau synhwyraidd ac offer ffidlan, tra'n annog disgyblion i gymryd rhan mewn penderfyniadau am eu dysgu.

Mae'r UCD yn ddiogel a gofalgar, i raddau helaeth. Mae staff yn defnyddio dulliau adferol a hyfforddi emosiynol yn effeithiol i helpu disgyblion i reoli ymddygiad, ac mae trefniadau diogelu yn gadarn. Mae bron pob un o'r staff yn dangos gwybodaeth gadarn am weithdrefnau diogelu, ac fe gaiff pryderon eu hadolygu'n systematig. Mae presenoldeb yn destun pryder o hyd, ac mae arweinwyr yn parhau i weithio'n agos gyda theuluoedd i wella presenoldeb.

Mae arweinwyr wedi ymrwymo i les disgyblion, ac mae dysgu proffesiynol yn helpu staff i ddiwallu anghenion cymhleth disgyblion. Fodd bynnag, mae capasiti arweinyddiaeth wedi'i gyfyngu gan ddibyniaeth ar nifer fach o unigolion allweddol, sy'n effeithio ar gynllunio strategol a gwerthuso effaith mentrau yn gyson. Mae arweinwyr yn defnyddio ystod eang o dystiolaeth i lywio hunanwerthuso a chynllunio gwelliant, sy'n rhoi

dealltwriaeth wybodus iddynt o arfer, ond oherwydd nad ydynt yn gwerthuso effaith gweithredoedd yn gyson dros gyfnod, nid ydynt bob amser yn glir ynghylch pa strategaethau sy’n cael yr effaith fwyaf ar gynnydd a safonau disgyblion.

Mae’r pwyllgor rheoli yn ymroddgar ac yn ymgysylltu’n weithredol â’r UCD, ond mae gormod o ddibyniaeth ar wybodaeth arweinwyr yn cyfyngu ar her effeithiol, gan arwain at oruchwyliaeth, atebolrwydd a gwerthuso strategol anghyson, ac yn lleihau ei effaith ar welliant a gwerth am arian.

Ar draws yr UCD, mae tegwch y cynnig ar gyfer darpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg yn anghyson.

Er bod arweinwyr yn buddsoddi mewn darparu amgylcheddau dysgu anogol i roi hwb i ddisgyblion i deimlo’n ddiogel ac yn ddigynnwrf, nid yw’r trefniadau presennol o ran adeiladau yn cefnogi lles a chyfleoedd dysgu disgyblion yn ddigon da.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud pedwar argymhelliad i helpu’r UCD i barhau i wella, sef:

A1 Gwella cysondeb ansawdd yr addysgu a chryfhau’r cynllunio a’r ddarpariaeth ar gyfer medrau

A2 Gwella presenoldeb

A3 Cryfhau trylwyredd strategol a gwerthusol arweinwyr ar bob lefel, fel bod cynllunio gwelliant yn canolbwyntio’n graffach ar effaith

A4 Cryfhau rôl y pwyllgor rheoli

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr UCD yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

Mae'r tîm arweinyddiaeth a staff ar draws yr UCD yn angerddol ac yn rhoi lles disgyblion yn ganolog i'w holl waith a'u rhyngweithio â disgyblion a'u teuluoedd. Mae ffocws cyson ar ddarparu profiadau dysgu lle mae disgyblion yn hapus ac yn cael eu gwerthfawrogi, ac yn gallu cymryd camau cadarnhaol tuag at eu dyfodol. Mae perthnasoedd gwaith cryf ac ymddiriedus rhwng staff a disgyblion yn sail i hyn, ac ymagwedd gyson a pherthynol at ymddygiad a lles.

### Addysgu a dysgu

At ei gilydd, mae staff addysgu yn creu amgylcheddau dysgu digynnwrf, anogol a phwrpasol sy'n cefnogi ymgysylltiad a chynnydd disgyblion. Mae staff yn gweithredu fel modelau rôl cadarnhaol, gan fynd ati i wneud eu gwaith yn gadarnhaol. Mae'r rhan fwyaf o staff yn sefydlu perthnasoedd gwaith cryf â disgyblion ac yn cynnal disgwyliadau clir a chyson ar gyfer ymddygiad, sydd wedi eu gwreiddio mewn ymddiriedaeth a pharch ar y ddwy ochr.

Mae'r rhan fwyaf o staff yn rheoli ymddygiad a rheoleiddio emosiynol disgyblion yn fedrus. O ganlyniad, mae disgyblion sydd angen lefel uchel o gymorth yn ailymgysylltu'n gyflym â'u dysgu yn effeithiol ac yn ystyrlon.

At ei gilydd, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion sy'n mynychu'r UCD yn rheolaidd yn dangos agweddau cadarnhaol at ddysgu, ac mae llawer ohonynt yn gwneud cynnydd addas yn datblygu medrau pwysig. Mae llawer o ddisgyblion yn ennill cymwysterau ystyrlon sy'n eu paratoi'n effeithiol ar gyfer y cam nesaf yn eu bywydau.

Yn y rhan fwyaf o wersi, mae staff yn adnabod disgyblion yn dda iawn ac mae ganddynt ddealltwriaeth fanwl o'u galluoedd a'u diddordebau. Maent yn defnyddio'r wybodaeth hon yn addas i gynllunio dysgu sy'n diwallu anghenion disgyblion. Mewn lleiafrif o wersi, a lle bo'n briodol, mae staff yn gwneud defnydd effeithiol o dargedau unigol disgyblion i gynllunio cyfleoedd dysgu pwrpasol. Mae llawer o staff hefyd yn defnyddio ystod addas o strategaethau ac adnoddau i ennyn ymgysylltiad disgyblion, a chefnogi eu dysgu. Er enghraifft, mewn gwyddoniaeth, mae disgyblion yn defnyddio clustffonau realiti rhithwir i archwilio cyfansoddiad gwaed a phrofi'r system solar.

Mae'r rhan fwyaf o staff addysgu yn sicrhau bod gweithgareddau dysgu yn adeiladu'n dda ar ddysgu blaenorol disgyblion. Mae arweinwyr wedi cyflwyno dilyniant dysgu buddiol, 'Rwy'n gwneud, Rydyn ni'n gwneud, Rydych chi'n gwneud', sy'n cefnogi modelu effeithiol a datblygiad medrau disgyblion. O ganlyniad, mae disgyblion yn datblygu annibyniaeth yn gynyddol mewn cymhwyso ac atgyfnerthu'r medrau hyn.

Yn y rhan fwyaf o wersi, rhoddir adborth ar lafar ar unwaith, ac mae'n gefnogol i ymdrechion disgyblion. Mae hyn yn cymell disgyblion i ddyfalbarhau â'u tasgau dysgu a gwneud cynnydd effeithiol dros gyfnod. At ei gilydd, mae athrawon yn rhoi adborth defnyddiol i helpu disgyblion i ddeall y camau nesaf yn eu dysgu. Mewn lleiafrif o achosion, mae adborth ysgrifenedig yn cynnwys cwestiynau pwrpasol sy'n herio disgyblion yn effeithiol i egluro'u meddwl neu ymestyn eu dysgu.

### Datblygiad medrau disgyblion

Yn ddiweddar, mae'r UCD wedi mapio'i hymagwedd at ddatblygu cymhwysedd digidol, medrau rhifedd a llythrennedd disgyblion ar draws y cwricwlwm. Mae'r gwaith hwn yn rhoi trosolwg cliriach o ble mae disgyblion yn cael cyfleoedd i ymarfer a chymhwyso'r medrau hyn mewn gwahanol bynciau. Mae llawer o ddisgyblion yn elwa ar gyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu eu medrau rhifedd mewn cyd-destunau ystyrlon. Er enghraifft, mewn gwersi gwyddoniaeth, mae disgyblion yn plotio graffiau i fesur cerhyntau trydanol neu'n defnyddio cwadrantau i werthuso helaethrwydd rhywogaethau. Mewn addysg gorfforol, mae disgyblion yn dewis pwysau priodol yn gywir ac yn cyfrifo cyfanswm y llwyth ar y bar, gan ddangos dealltwriaeth gadarn o rif a mesur.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau llythrennedd yn addas ar draws y cwricwlwm. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn hyderus a huawdl wrth gyfrannu ar lafar mewn gwersi, ac yn mynegi eu barn yn glir. Er enghraifft, mae disgyblion yn esbonio'u barn am rôl y Cenhedloedd Unedig neu'n disgrifio effaith daeargrynfeydd yn Haiti yn ystyriol. Mae ychydig o ddisgyblion yn llunio dadleuon cytbwys wedi'u hymchwilio'n dda, er enghraifft wrth gymharu diogelwch mopedau â gyrru ceir. Mae medrau ysgrifennu disgyblion yn datblygu'n briodol, ac mae llawer o ddisgyblion yn cynhyrchu darnau estynedig o ysgrifennu ar gyfer ystod o ddibenion a chynulleidfaoedd, yn cynnwys erthyglau ar ffurf arddull papur newydd.

Mae disgyblion yn cael cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu ystod o fedrau darllen. Mae'r rhain yn cynnwys darllen er pleser, echdynnu gwybodaeth o destunau a datblygu medrau dadansoddol trwy farddoniaeth sy'n cael ei hastudio yn rhan o'r cwrs Saesneg TGAU. Er enghraifft, mae disgyblion yn darllen 'Refugee Blues' ac yn cwblhau tasgau ysgrifenedig sy'n dangos dealltwriaeth ddadansoddol gadarn. Mae tystiolaeth gan ystod o randdeiliaid, yn cynnwys staff, rhieni a disgyblion, yn dangos diwylliant darllen cadarnhaol o fewn yr UCD, at ei gilydd. Fodd bynnag, mae'n ddyddiau cynnar iawn o ran mapio medrau darllen ar draws y cwricwlwm, ac nid yw arweinwyr wedi datblygu strategaeth ddarllen glir eto i hyrwyddo darllen yn gyson na chryfhau medrau darllen disgyblion ymhellach.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau digidol yn hyderus. Trwy sesiynau e-chwaraeon, mae disgyblion yn dysgu codio ac yn defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn effeithiol i greu cyflwyniadau, ymateb i negeseuon e-bost ac ymchwilio i

wybodaeth ar-lein. Mae defnyddio clustffonau realiti rhithwir yn ymestyn dealltwriaeth disgyblion o gysyniadau cymhleth ymhellach, fel strwythur a swyddogaeth y galon a'r system nerfol, ac yn cynyddu ymgysylltiad â dysgu.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn datblygu eu medrau annibyniaeth yn fuddiol. Mae disgyblion yn cynllunio, yn paratoi a choginio prydau bwyd yn fedrus, gan ddangos defnydd diogel a chywir o offer. Mae disgyblion hŷn yn atgyfnerthu'r medrau hyn ymhellach trwy gwblhau cyrsiau coginio achrededig, sy'n ymgorffori dysgu ac yn cefnogi llwybrau yn y dyfodol. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau corfforol yn effeithiol hefyd trwy ystod o weithgareddau ar y safle ac oddi ar y safle. Mae disgyblion yn dangos annibyniaeth gynyddol a thechneg gywir wrth ddefnyddio offer campfa, er enghraifft peiriannau rhwyfo. Mae gweithgareddau oddi ar y safle, yn cynnwys gwaith coetir, yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion wella'u ffitrwydd corfforol a'u stamina trwy dasgau ymarferol fel torri a chlirio gordyfiant.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu creadigrwydd a'u medrau datrys problemau yn dda trwy ystod eang o weithgareddau difyr. Er enghraifft, mae disgyblion yn dylunio ac adeiladu stolion pren, yn creu ac yn profi rocedi ac yn cynhyrchu gwaith celf ystyriol. Mae'r gweithgareddau hyn yn annog disgyblion i gynllunio, gwerthuso a mireinio'u gwaith.

Nid yw olrhain cynnydd disgyblion mewn datblygu eu medrau wedi'i datblygu'n ddigonol. O ganlyniad, ni all arweinwyr werthuso'n glir pa mor dda y mae disgyblion yn symud ymlaen o'u mannau cychwyn neu'n nodi bylchau ym medrau disgyblion yn gywir.

## Cwricwlwm a phrofiadau dysgu

Mae'r cynnig cwricwlwm yn addas ar gyfer anghenion llawer o ddisgyblion. Mae meintiau dosbarthiadau bach yn galluogi staff i deilwra profiadau dysgu yn effeithiol i anghenion a diddordebau unigol disgyblion. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn ymgysylltu'n gadarnhaol â dysgu sydd wedi'i bersonoli ac yn berthnasol. Mae arweinwyr wedi sefydlu cynlluniau clir i ddatblygu cwricwlwm ystyrlon a chydlynus, yn cynnwys trosolygon pwnc sy'n mapio darpariaeth ar draws pob maes dysgu. Caiff cynllunio ei adolygu'n ffurfiol bob hanner tymor, gan ddarparu cyfleoedd gwerthfawr i staff fyfyrio'n gydweithredol ar gynllunio a chyflwyno'r cwricwlwm. Fodd bynnag, megis dechrau cael eu datblygu y mae'r cynlluniau cwricwlwm hyn ac nid ydynt wedi cael eu mireinio yn ddigonol eto i sicrhau cysondeb a dilyniant ar draws pynciau. Hefyd, nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg wedi'i datblygu'n ddigonol ac mae'n anghyfartal ar draws yr UCD.

Mae disgyblion yn cael cyfle i ddilyn llwybrau cwricwlwm cadarnhaol sy'n arwain at ystod o achrediadau a chymwysterau priodol sy'n cyd-fynd â'u diddordebau a'u dyheadau. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mynychu darpariaeth oddi ar y safle am ran o'r wythnos, lle maent yn ymgymryd â dysgu ymarferol fel gwaith coed a gwaith plymer. Mae gwaith

partneriaeth â sefydliadau, yn cynnwys y gwasanaeth tân, y lluoedd arfog a'r RNLI yn cyfoethogi'r cwricwlwm ymhellach. Mae disgyblion yn gwerthfawrogi'r profiadau hyn ac yn eu cofnodi yn eu gwefannau disgybl, sy'n darparu cofnod ystyrlon o gynnydd ac yn cael eu rhannu â theuluoedd.

Mae disgyblion yn dysgu am ystod eang o destunau perthnasol a phwysig trwy Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh), fel iechyd rhywiol, diogelwch ar-lein a chydsynio. Ar draws y ddau safle, mae sesiynau ymyrraeth gymdeithasol unigol yn helpu disgyblion i ddatblygu eu medrau cymdeithasol a'u dealltwriaeth emosiynol.

Ochr yn ochr â phynciau craidd, mae disgyblion yn elwa ar ystod eang o gyfleoedd dysgu ychwanegol, yn cynnwys sesiynau addysg gorfforol, coginio, ymyrraeth gymdeithasol wythnosol, a chyrsiau galwedigaethol, lle bo'n briodol. Hefyd, mae staff yn gwneud defnydd effeithiol o ddarparwyr allanol i ehangu profiadau disgyblion ac ymestyn y cwricwlwm. Mae disgyblion yn cymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau, yn cynnwys syrffio, ymweliadau â'r sinema, ystafelloedd dianc a phrosiectau gwyddoniaeth, y maent yn eu gwerthfawrogi'n fawr.

## Paratoi ar gyfer y camau nesaf

Mae arweinwyr wedi sefydlu cysylltiadau cryf â cholegau lleol a darparwyr allanol, sy'n cynorthwyo disgyblion i ddatblygu dyheadau clir ar gyfer llwybrau ôl-16. Mae disgyblion yn ymwybodol o'r cymwysterau sydd eu hangen i ddilyn y cyrsiau o'u dewis, ac mae ychydig ohonynt yn cymryd rhan mewn profiad gwaith gwerthfawr, lle bo'n briodol, fel lleoliadau mewn ysgolion cynradd lleol. Mae sesiynau ymyrraeth gymdeithasol yn canolbwyntio ar lwybrau yn y dyfodol, yn cynnwys addysg bellach a chyflogaeth. Mae disgyblion hŷn ar y ddau safle yn cyfarfod bob pythefnos â swyddog Gyrfa Cymru, sy'n darparu cyfleoedd ar gyfer ymweliadau â cholegau a gweithgareddau ymarferol gyda darparwyr addysg amgen. Mae'r trefniadau hyn yn cefnogi ymgysylltu ac yn helpu disgyblion i ddatblygu perthnasoedd ymddiriedus ag oedolion sy'n arwain eu camau nesaf.

## Lles, diogelwch a phresenoldeb disgyblion

Mae'r UCD yn darparu amgylchedd diogel, gofalgar a pharchus, i raddau helaeth. Mae profiadau disgyblion a gweithredoedd staff yn cyfuno i greu diwylliant lle caiff diogelwch, lles a pherthnasoedd cadarnhaol eu blaenoriaethu'n gyson.

Mae disgyblion yn gwerthfawrogi bod pobl yn gwrando arnynt ac yn cael cyfleoedd rheolaidd i siarad yn breifat ag oedolion, sy'n cyfrannu'n uniongyrchol at eu synnwyr o ddiogelwch a lles emosiynol. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn mwynhau mynychu'r UCD ac yn dangos hyder cynyddol wrth ymgysylltu â dysgu ac arferion dros gyfnod.

Mae ymddygiad yn gadarnhaol ac yn cael ei reoli'n effeithiol, ar y cyfan, gan gyfrannu'n uniongyrchol at synnwyr disgyblion o ddiogelwch a lles. Mae staff yn cynorthwyo disgyblion i barchu pobl eraill, ac o ganlyniad, mae disgyblion yn gyffredinol ddigynnwrf mewn gwersi ac yn ystod amseroedd egwyl. Mae rhyngweithio disgyblion â staff ac ymwelwyr yn barchus a phwrpasol, yn nodweddiadol. Hefyd, mae staff yn defnyddio hyfforddi emosiynol a dulliau adferol yn effeithiol. Mae hyn wedi cryfhau gallu disgyblion i fyfyrio ar eu gweithredoedd a deall canlyniadau.

Mae dysgu proffesiynol yn cynorthwyo staff i ymateb yn effeithiol i ymddygiad heriol disgyblion. Mae staff yn teimlo'u bod yn cael cymorth da gan arweinwyr a thîm ymddygiad yr awdurdod lleol ac yn dangos hyder wrth reoli sefyllfaoedd heriol.

Mae arweinwyr yn cynnal goruchwyliaeth briodol o ymddygiad trwy gofnodi systematig ac adolygu rheolaidd, ac maent yn defnyddio staff yn briodol i reoli risg yn effeithiol. Fodd bynnag, er bod data ymddygiad yn cael ei gasglu'n rheolaidd a'i adolygu ar lefel disgyblion unigol, nid yw'n cael ei ddadansoddi'n ddigon trylwyr gan arweinwyr i nodi patrymau neu lywio gwaith ataliol. O ganlyniad, collir cyfleoedd i ddefnyddio'r wybodaeth hon yn fwy strategol i gryfhau cynllunio'r cwricwlwm, dysgu proffesiynol a pharhad cymorth.

Mae staff yn dangos gwybodaeth gadarn am gyfrifoldebau diogelu ac yn cymhwyso gweithdrefnau'n gyson. Caiff pryderon eu cofnodi'n brydlon ac yn gywir ar system electronig ganolog, gan sicrhau bod gwybodaeth yn fanwl, yn ffeithiol ac yn canolbwyntio ar ddisgyblion unigol. Mae rhybuddion awtomatig i arweinwyr diogelu yn sicrhau bod pryderon yn cael eu hadolygu'n ddi-oed, sy'n cefnogi nodi cynnar ac ymateb amserol.

Mae arweinyddiaeth o ran diogelu o fewn yr UCD yn gryf. Mae'r tîm diogelu dynodedig yn dangos dealltwriaeth ar y cyd a chadarn o drothwyau, llwybrau dwysáu a chyfrifoldebau statudol. Mae cyfarfodydd diogelu dyddiol yn sicrhau bod pryderon yn cael eu hadolygu'n systematig a'u rhannu'n briodol â staff, gan gefnogi gwyliadwriaeth gyson ar draws y ddau safle. Mae cofnodion diogelu yn cael eu cynnal yn dda, yn ddiogel ac yn drylwyr, ac mae gweithgarwch dilynol gydag asiantaethau allanol yn barhaus.

Mae goruchwyliaeth strategol o ddiogelu gan y pwyllgor rheoli yn dibynnu'n ormodol ar wybodaeth wedi'i darparu gan uwch arweinwyr ac nid yw wedi cael ei datblygu'n ddigon da i gynnwys craffu annibynnol na gwerthuso systematig o batrymau a thueddiadau diogelu ac ymddygiad. O ganlyniad, nid yw'r pwyllgor yn gallu sicrhau ei hun yn llawn eto fod trefniadau diogelu yn parhau yn gadarn ac yn effeithiol dros gyfnod.

Mae presenoldeb yn parhau i fod yn destun pryder, ac mae llawer o ddisgyblion yn mynychu ar sail amserlenni llai neu amserlenni teilwredig. Er bod presenoldeb yn cael ei fonitro'n agos ac mae arweinwyr yn dangos dealltwriaeth gref o amgylchiadau unigol, mae grŵp craidd o ddisgyblion yn parhau i fynychu'n anaml iawn.

## Ymateb i anghenion dysgu ychwanegol disgyblion

Mae arweinwyr yn yr UCD yn dangos ymrwymiad cryf i ddiwallu anghenion disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae staff yn darparu cymorth teilwredig ac yn defnyddio ystod o strategaethau, yn cynnwys amserlenni gweledol, dietau synhwyraidd ac offer ffidlan, i helpu disgyblion i hunanreoleiddio ac ymgysylltu â dysgu. Mae arfer yn canolbwyntio ar yr unigolyn yn datblygu'n briodol, ac mae disgyblion yn cymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau mewn cyfarfodydd adolygu. Mae staff yn cael hyfforddiant perthnasol i gefnogi anghenion amrywiol. Megis dechrau datblygu y mae cydlynu a gwerthuso cymorth, ac mae diffyg manwl gywirdeb mewn targedau unigol. Nid oes gan arweinwyr system effeithiol i olrhain cynnydd tuag at y targedau hyn, sy'n cyfyngu ar allu staff i werthuso a chynllunio ymyriadau targedig.

## Llais y disgybl

Caiff disgyblion gyfleoedd gwerthfawr i ddangos cyfrifoldebau arwain. Er enghraifft, trwy aelodaeth o'r Cyngor Ysgol neu drwy dywys ymwelwyr o gwmpas y safleoedd. Yn ychwanegol, darperir ystod eang o brofiadau a gweithgareddau ar gyfer disgyblion trwy gynllun gwobrau'r UCD, sy'n cynnwys ymweliadau â Llangrannog, Ystafelloedd Dianc yn Aberystwyth ac ymweliadau â thraeth Borth.

## Arweinyddiaeth

Mae lles disgyblion wrth wraidd gwaith tîm arweinyddiaeth yr UCD, sy'n meithrin perthnasoedd cefnogol â disgyblion a theuluoedd. Mae'r tîm arweinyddiaeth yn gymharol ddibrofiad ac yn dibynnu ar nifer fach o unigolion allweddol, sy'n cyfyngu ar oruchwyliaeth strategol ac yn arwain at arweinyddiaeth sy'n aml yn weithredol yn hytrach na strategol. Mae trosiant staff uchel pellach yn effeithio ar gapasiti arwain a chysondeb yn yr UCD. Mae'r tîm arweinyddiaeth yn elwa ar gymorth mewnol ac allanol, yn cynnwys rhaglenni arweinyddiaeth yr awdurdod lleol, yr ymynghorydd gwella ysgolion, mentora a rhwydweithiau cydweithredol. Mae hyn yn dechrau cryfhau ansawdd cyfeiriad strategol yn yr UCD ac yn arwain at welliannau mewn ychydig o feysydd.

Mae arweinyddiaeth yn cefnogi diwylliant cryf o ymgysylltu â rhieni, sy'n cael ei adlewyrchu mewn systemau cyfathrebu clir, gwybodaeth hygyrch i deuluoedd ac ystod o gyfleoedd i rieni ymgysylltu â'r UCD. O ganlyniad, mae rhieni'n wybodus am ddisgwyliadau, darpariaeth a chynnydd eu plant, sy'n helpu meithrin ymddiriedaeth a pherthnasoedd cadarnhaol rhwng teuluoedd a staff. Hefyd, mae arweinwyr wedi sefydlu trefniadau gwaith partneriaeth effeithiol gydag ystod eang o wasanaethau. Mae hyn yn gryfder yn yr UCD. Mae'r rhain yn cynnwys Gyrfa Cymru, y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid a Gwasanaeth Cwnsela Ysgolion  Ceredigion. O ganlyniad, mae disgyblion yn cael cymorth amserol, cydlynus a phersonoledig, sy'n cyfrannu at les ac ymgysylltu gwell.

Mae arweinwyr yn defnyddio ystod eang o dystiolaeth i lywio hunanwerthuso a chynllunio gwelliant, yn cynnwys teithiau dysgu, hyfforddi cyfarwyddol, craffu ar waith disgyblion, holiaduron a systemau olrhain. Mae hyn yn galluogi arweinwyr i gael dealltwriaeth wybodus o arfer bresennol. Fodd bynnag, oherwydd nad yw arweinwyr yn gwerthuso effaith gweithredoedd dros gyfnod yn gyson, mae hunanwerthuso yn aml yn ddisgrifiadol yn hytrach nag yn werthusol graff. O ganlyniad, nid yw arweinwyr bob amser yn glir ynghylch pa strategaethau sy'n gwneud y gwahaniaeth mwyaf i gynnydd a safonau disgyblion.

Mae arweinwyr wedi sefydlu rhaglen dysgu proffesiynol sy'n adlewyrchu anghenion disgyblion yn yr UCD. O ganlyniad i hyfforddiant targedig mewn arfer sy'n ystyriol o drawma, niwrowahaniaeth, diogelu ac ymyriadau arbenigol, mae staff yn datblygu hyder proffesiynol ac yn dechrau cymhwyso dulliau cyson. Yn yr arfer fwyaf effeithiol, mae hyn yn arwain at amgylcheddau dysgu digynnwrf, rhagweladwy lle mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel, eu bod wedi ymgysylltu ac yn gallu rheoleiddio eu hemosiynau yn well a chael mynediad at ddysgu. O ganlyniad, mae presenoldeb ac ymgysylltiad disgyblion a'u parodrwydd i ddysgu yn gwella, ac achosion o ymddygiadau heriol yn lleihau. Fodd bynnag, er bod arweinwyr yn nodi newidiadau cadarnhaol yn arfer staff ac ymgysylltiad disgyblion, nid ydynt yn gwerthuso effaith gynaledig dysgu proffesiynol ar gynnydd, ymddygiad a safonau disgyblion eto.

Mae ffocws arweinwyr ar flaenoriaethau cenedlaethol yn addas. Er enghraifft, mae arweinwyr yn ymwybodol o bresenoldeb a'r agenda tlodi. Fodd bynnag, mae'n ddyddiau cynnar iawn o ran datblygu cynllunio strategol a gwerthuso blaenoriaethau cenedlaethol yn yr UCD. Ar draws yr UCD, mae tegwch cynnig yr UCD ar gyfer darpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg yn anghyson.

Mae'r pwyllgor rheoli yn dangos ymrwymiad i'r UCD trwy weithgareddau ymgysylltu rheolaidd, yn cynnwys ymweliadau, teithiau dysgu a ffocws clir ar les a phresenoldeb disgyblion. Fodd bynnag, oherwydd bod aelodau'n dibynnu'n sylweddol ar wybodaeth wedi'i chyflwyno gan arweinwyr, nid yw monitro yn arwain at her ddigon cadarn. O ganlyniad, mae goruchwylio capasiti arwain, diogelu a defnyddio cyllid yn anghyson. O ganlyniad, er bod y pwyllgor yn dangos ymroddiad i ethos yr UCD, mae gwendidau mewn goruchwylio strategol, atebolrwydd a gwerthuso yn cyfyngu ar ei heffeithiolrwydd mewn gyrru gwelliant a sicrhau gwerth am arian.

Er bod arweinwyr yn buddsoddi mewn darparu amgylcheddau dysgu anogol i roi hwb i ddisgyblion deimlo'n ddiogel ac yn ddigynnwrf, nid yw'r trefniadau presennol o ran adeiladau yn cefnogi lles a chyfleoedd dysgu disgyblion yn ddigon da.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r UCD ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Codwyd pryder ynghylch rheoli'r safle yn ystod yr arolygiad, ac mae'r awdurdod lleol wedi cael gwybod.

Mae gan yr UCD drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a rheolwyr yn rheoli cyllid yr UCD yn briodol, yn cynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni / gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr UCD a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y pwyllgor rheoli, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr UCD
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu UCD
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y Cyngor UCD a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr UCD i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol / UCD, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r UCD
- yn ystyried cynllun gwella'r UCD ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r UCD wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r UCD, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r pwyllgor rheoli, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 23/03/2026